**Datganiad Blynyddol ar Uniondeb Gwaith Ymchwil**
**1 Awst 2021 – 31 Gorffennaf 2022**

## Cefndir

1. Mae Prifysgol Aberystwyth wedi ymrwymo'n gadarn i'r egwyddorion a geir yn y **concordat i gefnogi uniondeb mewn gwaith ymchwil**. Er mwyn gwella atebolrwydd a rhoi sicrwydd bod mesurau ar waith i gefnogi safonau uchel o ran uniondeb gwaith ymchwil, mae'r concordat yn cynghori y dylai sefydliadau sy'n cyflogi ymchwilwyr lunio datganiad blynyddol i'w gyflwyno i'w corff llywodraethu eu hunain, a'r datganiad hwnnw'n nodi:

- Crynodeb o'r camau gweithredu a'r gweithgareddau a gyflwynwyd i gefnogi ac atgyfnerthu dealltwriaeth am faterion uniondeb gwaith ymchwil a'r modd y rhoddir y materion hynny ar waith.
- Datganiad i roi sicrwydd bod y prosesau sydd wedi eu cyflwyno gan y sefydliad ar gyfer ymdrin â honiadau o gamymddwyn yn dryloyw, yn amserol, yn gadarn ac yn deg, a'u bod yn parhau i fod yn briodol i anghenion y sefydliad.
- Datganiad ar lefel uchel am unrhyw ymchwiliadau ffurfiol a gynhaliwyd i achosion posibl o gamymddwyn ym maes ymchwil.
- Datganiad ar yr hyn y mae'r sefydliad wedi'i ddysgu o unrhyw ymchwiliadau ffurfiol a gynhaliwyd i achosion posibl o gamymddwyn ym maes ymchwil.
- Datganiad ar sut mae'r sefydliad yn creu ac yn ymgorffori amgylchedd ymchwil lle mae'r holl staff, ymchwilwyr a myfyrwyr yn teimlo'n ddigon cyfforddus i allu rhoi gwybod am achosion o gamymddwyn.

## Pwrpas a Chyd-destun

2. Dyma Ddatganiad Blynyddol y Brifysgol ar Uniondeb Gwaith Ymchwil ("Datganiad Blynyddol"). Mae'r datganiad blynyddol hwn yn amlinellu safbwynt y Brifysgol mewn perthynas ag uniondeb ymchwil; mae'n cynnwys y camau a gymerir i sicrhau cydymffurfiaeth, yn ogystal â rhoi sicrwydd ynghylch y broses a ddilynir er mwyn ymdrin ag unrhyw honiadau o gamymddwyn mewn ymchwil, gan gynnwys datgelu'r honiadau hynny'n llawn. Mae'r datganiad hwn wedi cael ei gymeradwyo gan Bwyllgor Moeseg Ymchwil y Brifysgol, y Weithrediaeth a'r Senedd a bydd ar

gael yn gyhoeddus ar wefan Prifysgol Aberystwyth, yn unol â'r hyn a argymhellir yn y concordat.

3. Mae'r datganiad cyhoeddus hwn yn ymwneud â gwaith ymchwil a wneir gan staff academaidd ac uwchraddedigion ymchwil. Mae'r gwaith ymchwil a wneir gan israddedigion ac uwchraddedigion trwy gwrs yn cael ei weinyddu gan y Gofrestrfa Academaidd.

4. Mae ymchwil yn rhan annatod o genhadaeth a gwaith Prifysgol Aberystwyth. Fel sefydliad sy'n derbyn arian cyhoeddus, mae'r Brifysgol yn cydnabod yr angen i fod yn arloesol ac yn uchelgeisiol ac eto yn gyfrifol ac yn broffesiynol. Crynhoir hyn yng **Nghynllun Strategol y Brifysgol 2018-23**.

5. Roedd 98% o'r gwaith ymchwil a gyflwynwyd gan Brifysgol Aberystwyth i FfRhY2021 o safon ryngwladol neu'n uwch. Er mwyn cynnal ac adeiladu ar bortffolio ymchwil llwyddiannus y Brifysgol, mae'n bwysig ein bod yn ymrwymo i gynnal y safonau uchaf yn ein gwaith ymchwil, o'r cam cynllunio i'r adeg pan fydd yr ymchwil yn cael ei lledaenu, trwy fod yn agored a dangos trylwyredd ac uniondeb yn ein holl weithgareddau ymchwil.

6. Rydym yn cyflawni hyn trwy gael nifer o brosesau ansawdd yn sail i'n hymchwil a thrwy ddarparu cymorth, polisïau a chanllawiau perthnasol ar ffurf sy'n hygyrch yn eang.

## Y cyfnod dan sylw yn y Datganiad Blynyddol hwn

7. Mae'r Datganiad Blynyddol hwn yn nodi'r camau gweithredu a'r gweithgareddau a gynhaliwyd yn ystod Blwyddyn Academaidd 2021/2022. Mae'r adroddiad hwn hefyd yn rhoi'r datganiad gofynnol am gamymddwyn ym maes ymchwil am yr un cyfnod.

## Polisïau a gweithdrefnau

8. Mae gan y Brifysgol nifer o bolisïau a gweithdrefnau i sicrhau bod gwaith ymchwil yn cael ei wneud yn briodol, yn ogystal â sicrhau bod dulliau effeithiol ar gael er mwyn rhoi gwybod am bryderon neu ymholiadau. Caiff y polisïau hyn eu hadolygu a'u monitro'n rheolaidd gan bwyllgor Llywodraethu priodol y Brifysgol:

- Fframwaith Moeseg Ymchwil
- Polisi Ymchwil Sensitif
- Gweithdrefn ar gyfer Ymchwilio i Gamymddwyn wrth wneud Ymchwil

- [Polisi Datgelu er Lles y Cyhoedd (Chwythu'r Chwiban)]
- [Protocol Uniondeb Proffesiynol]
- [Polisïau Diogelu, Prosesu a Chadw Data]
- [Polisi Rheoli Data Ymchwil]

**Polisi Ymchwil Sensitif y Brifysgol (yn gysylltiedig â Dyletswydd Prevent)**

9. Rhaid i ymchwilwyr sy'n ystyried neu sy'n cynnal ymchwil ar bynciau sensitif, a all gynnwys meysydd sy'n gysylltiedig â Dyletswydd Prevent https://www.aber.ac.uk/cy/hse/proc-prac/prevent/ sicrhau bod y gofynion moeseg priodol wedi'u hystyried a'u bodloni, yn ogystal ag ymgynghori â Pholisi a Gweithdrefn y Brifysgol ar Ymchwil Sensitif. https://www.aber.ac.uk/en/media/departmental/healthsafetyenvironment/Polisi-a-Gweithdrefn-Ymchwil-Sensitif.pdf

10. Mae'r Brifysgol yn cydnabod bod rhyddid academaidd yn allweddol mewn perthynas â'i gweithgareddau ymchwil. Fodd bynnag, mae gan y Brifysgol ddyletswydd hefyd i sicrhau bod ymchwil, yn enwedig ymchwil sy'n sensitif ei natur, yn cael ei chynnal yn foesegol ac yn briodol.

11. Mae'r Brifysgol wedi llunio Gweithdrefn Polisi Ymchwil Sensitif y mae angen i bob ymchwilydd (yn staff a myfyrwyr) ei dilyn os ydynt yn defnyddio data sensitif. Mae cydymffurfio â'r polisi hwn yn rhoi modd i'r Brifysgol ddangos i awdurdodau allanol bod unrhyw ddefnydd ar ddeunydd o'r fath yn rhan o ymchwil ddilys. Er hynny, ni allwn warantu y bydd hyn yn diogelu rhag unrhyw ymchwiliad gan awdurdodau o'r fath, pe bai'r sefyllfa'n codi.

## Camau Gweithredu a Gweithgareddau yn 2021-2022 i gefnogi ac atgyfnerthu dealltwriaeth am faterion uniondeb gwaith ymchwil a rhoi'r materion hynny ar waith

**System Adolygu Moeseg**

12. Mae'r gwaith wedi dechrau yn ystod y cyfnod hwn i ddatblygu ffurflen asesu moeseg newydd ar-lein. Cafodd y system adolygu moeseg ar-lein bresennol ei datblygu'n fewnol yn 2014. Er mwyn sicrhau ein bod yn cynnal yr arferion gorau a safon uchel o ran adolygu moeseg ceisiadau ymchwil, mae adolygiad o'r system bresennol wedi bod ar y gweill. Mae'r gwaith yn mynd rhagddo i ddatblygu system adolygu well a phwrpasol er mwyn integreiddio adolygiadau o brosiectau ymchwil dynol ac ymchwil ag anifeiliaid. Sefydlwyd gweithgor ar gyfer y prosiect er mwyn datblygu a chyflwyno'r system newydd ar APEX dros y flwyddyn academaidd nesaf.

**Hyfforddiant Moeseg ac Uniondeb Ymchwil**

13. Mae Pwyllgor Moeseg Ymchwil y Brifysgol wedi trafod yr angen i sicrhau bod y ddarpariaeth hyfforddiant a datblygu i staff a myfyrwyr o fewn y Brifysgol yn cael ei hadolygu a'i haddasu i gynnwys materion newydd a datblygol ym maes moeseg, megis ymchwil gan gyfranogwyr ar-lein a'r heriau a ddaw yn sgil yr agenda Gwyddoniaeth Agored. Mae'r Pwyllgor Moeseg Ymchwil yn argymell bod pob ymchwilydd o fewn y Brifysgol yn ymgymryd â lefel gyffredinol o hyfforddiant yn rheolaidd drwy gydol eu gyrfa. Er mwyn hyrwyddo'r arferion gorau yn barhaus a sicrhau bod pob ymchwilydd yn ymwybodol o gyfrifoldebau'r Brifysgol yn unol â'r Concordat, mae'n hanfodol diweddaru'r hyfforddiant. Ar hyn o bryd mae'r Pwyllgor Moeseg Ymchwil yn ymchwilio i wahanol lwyfannau hyfforddi y gellir eu defnyddio ac sydd ar gael gan ddarparwyr mewnol ac allanol.

**Llywodraethu Ymchwil**

14. Ar hyn o bryd mae'r Pwyllgor Moeseg Ymchwil yn adolygu'r systemau ar gyfer moeseg a llywodraethu yn y Brifysgol a bydd yn argymell newidiadau yn ystod sesiwn 2022/3. Mae'r Brifysgol wedi ymrwymo i sicrhau bod prosesau ar waith a strategaethau wedi'u datblygu i reoli materion moeseg a llywodraethu yn llwyddiannus.

**Ymchwil ag Anifeiliaid**

15. Mae Athrofa'r Gwyddorau Biolegol, Amgylcheddol a Gwledig wedi dechrau dychwelyd i'w threfn arferol ar ôl pandemig Covid. Rhoddwyd blaenoriaeth i les anifeiliaid yn ystod y pandemig. Bu staff y ffermydd neu dechnegwyr ymchwil yn gofalu am y da byw ar y ffermydd (sef yr anifeiliaid hynny y mae'r rhan fwyaf o waith y Brifysgol ag anifeiliaid yn seiliedig arnynt). Rhoddwyd mesurau ar waith yn y ffermydd ac mewn lleoliadau eraill i sicrhau bod pobl yn gweithio ar eu pen eu hunain, neu mewn swigod, yn ôl yr angen. Defnyddiwyd yr un system ar gyfer gwaith dyfrol a gwaith gyda llygod.

**Protocol Nagoya**

16. 'Mae Protocol Nagoya ar Fynediad at Adnoddau Genetig a Rhannu'r Buddion a ddaw o'u Defnydd yn Deg a Chyfartal i'r Confensiwn ar Amrywiaeth Biolegol yn gytundeb rhyngwladol er mwyn rhannu'r buddion a ddaw yn sgil defnyddio adnoddau genetig mewn ffordd deg a chyfartal.'
Yn dilyn archwiliad yn y flwyddyn academaidd flaenorol, mae'r Brifysgol wedi sefydlu gweithgor sy'n gyfrifol am ddatblygu polisi a gweithdrefn i sicrhau bod y Brifysgol yn cydymffurfio â Phrotocol Nagoya.

## Adolygu Polisïau

17. Mae'r Pwyllgor Moeseg Ymchwil wedi adolygu a diweddaru polisïau sy'n ymwneud ag Uniondeb Ymchwil fel yr amlinellir isod.

### Polisi Apeliadau y Panel Moeseg Ymchwil

18. Cafodd Polisi Apeliadau Panel Moeseg Ymchwil Prifysgol Aberystwyth ei adolygu a'i gymeradwyo ym mis Gorffennaf 2021. Mae'r polisi hwn yn sicrhau bod gan ymchwilwyr ffordd deg a thryloyw o apelio yn erbyn Barn Foesegol Anffafriol a roddir gan y Panel Moeseg Ymchwil.

### Polisi Coronafeirws

19. Mae'r Brifysgol wedi gweithio i sicrhau bod yr holl staff, myfyrwyr a'r rheiny sy'n cymryd rhan mewn gwaith ymchwil wedi gallu gweithio'n ddiogel yn ystod pandemig y coronafeirws. Mae'r Brifysgol wedi parhau i weithio o fewn y 'Polisi Canllawiau Moeseg Ymchwil ar gyfer Covid-19' a gymeradwywyd gan y Pwyllgor Moeseg Ymchwil ac a ddatblygwyd i gynghori ymchwilwyr ar sut i reoli eu prosiectau yn ystod pandemig Covid-19.

20. Mae'r Brifysgol bob amser wedi gweithredu ar y cyd â chanllawiau Llywodraeth Cymru ac mae wedi gallu cynghori ymchwilwyr eu bod yn gallu ailgychwyn ymchwilio.

## Hyfforddiant

21. Mae hyfforddiant a chodi ymwybyddiaeth ym meysydd moeseg ac uniondeb yn chwarae rhan bwysig wrth hwyluso arferion ymchwil da. Anelir y digwyddiadau hyfforddi a chodi ymwybyddiaeth yn Aberystwyth at ymchwilwyr ar bob lefel ac fe'u cyflwynir mewn amrywiaeth o ffyrdd.

22. Wedi iddi lwyddo i gynnal yr holl sesiynau hyfforddi a datblygu a gynigir ar hyn o bryd drwy gydol pandemig y coronafeirws drwy gynnig hyfforddiant ar-lein, mae'r Brifysgol yn falch o allu ailddechrau cynnig sesiynau wyneb yn wyneb ac ar-lein.

23. Caiff cydlynwyr modiwlau a staff adrannol eraill sy'n dysgu israddedigion ac uwchraddedigion trwy gwrs eu hannog i ymgorffori prosesau a gweithdrefnau priodol y Brifysgol yn rhan annatod o'u dysgu. Caiff hyfforddiant ar foeseg ymchwil i israddedigion ei drefnu yn yr adrannau eu hunain. O ran uwchraddedigion ymchwil, mae'r Adran Ymchwil, Busnes ac Arloesi yn cyflwyno'r modiwl '*Moeseg*, *Llên-ladrata ac Ymarfer Academaidd*', gyda chymorth Ysgol y Graddedigion. Mae'r modiwl hwn yn orfodol i bob myfyriwr ymchwil newydd (PhD ac MPhil), ac fe'i cynhelir bob mis Medi a mis Ionawr. Rhaid i'r myfyriwr lwyddo yn y modiwl er mwyn mynd ymlaen i astudio yn yr ail flwyddyn. Cafodd cynnwys y modiwlau hyn ei adolygu a'i

ddatblygu yn ystod cyfnod yr adroddiad a chafodd yr asesiad y mae'r myfyrwyr yn ymgymryd ag ef ar ôl cwblhau'r modiwlau ei ailysgrifennu i sicrhau bod y myfyrwyr yn cael gwell dealltwriaeth o gynnwys y sesiynau hyn ac yn gallu ysgrifennu cais moeseg manwl a llwyddiannus ar gyfer eu prosiect ymchwil.

24. Mae'r Brifysgol yn cydnabod yr angen i sicrhau bod myfyrwyr ac ymchwilwyr sydd ar ddechrau eu gyrfa yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau i gynnal y safonau uchaf o ran moeseg wrth ymgymryd â'u hymchwil. Gwahoddir ac anogir ymchwilwyr ar ddechrau eu gyrfa a staff academaidd sydd newydd gael eu penodi i fynd i nifer o sesiynau sydd wedi'u teilwra'n benodol a chynhelir y rhain drwy gydol y flwyddyn academaidd. Gall aelodau o'r staff ymchwil presennol hefyd fynd i'r sesiynau hyn. Rydym yn parhau i fod yn rhan o'r rhaglen dreigl o sesiynau *Arfer Da mewn Ymchwil* a gyflwynir gan Ymchwil, Busnes ac Arloesi ar draws y Brifysgol, a chyflwynwyd y sesiynau hyn i ystod o staff ymchwil newydd a'r rhai sydd eisoes yn gweithio yma. Cynhelir y sesiynau hyn ar Arfer Da mewn Ymchwil drwy gydol y flwyddyn academaidd a chyflwynir sesiwn wahanol bob pythefnos o fis Medi i fis Mai ym mhob blwyddyn academaidd.

25. Bydd y Brifysgol yn parhau i ddatblygu a mireinio'r hyfforddiant a gynigir ganddi ar gyfer blwyddyn academaidd 2022/23, a hynny ar y cyd â datblygu rhaglen ehangach i ddatblygu ymchwilwyr yn rhan o ymrwymiad y Brifysgol i'r Concordat ar gyfer Datblygu Ymchwilwyr.

## Gweithgareddau sydd wedi'u cynllunio

### Adolygiad o berfformiad y Brifysgol o'i gymharu â'r Concordat diwygiedig

26. Yn dilyn cyhoeddi adnodd hunanasesu'r Swyddfa Uniondeb Ymchwil (UKRIO) ym mis Medi 2021, bydd Pwyllgor Moeseg Ymchwil y Brifysgol yn goruchwylio adolygiad manwl o arferion a pholisïau moeseg ac uniondeb ymchwil y Brifysgol i ganfod meysydd y gallai fod angen eu diwygio neu eu gwella er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth barhaus â'r Concordat.

### Adolygiadau o Bolisïau a Gweithdrefnau

27. Bydd nifer o bolisïau a gweithdrefnau sy'n ymwneud ag uniondeb ymchwil yn cael eu hadolygu yn y man:

### Cylch Gorchwyl y Panel Moeseg Ymchwil

28. Bydd Cylch Gorchwyl Panel Moeseg Ymchwil y Brifysgol yn cael ei adolygu ym mis Hydref 2022

### Cylch Gorchwyl y Pwyllgor Moeseg Ymchwil

29. Bydd Cylch Gorchwyl Pwyllgor Moeseg Ymchwil y Brifysgol yn cael ei adolygu ym mis Hydref 2022

### Polisi Diogelwch Sensitif

30. Bydd Polisi Diogelwch Sensitif y Brifysgol yn cael ei adolygu ym mis Rhagfyr 2022

**Gweithdrefn ar gyfer Ymchwilio i Gamymddwyn mewn Ymchwil**

31. Mae Pwyllgor Moeseg Ymchwil y Brifysgol wedi trafod yr angen am adolygiad eang o Weithdrefn y Brifysgol ar gyfer Ymchwilio i Gamymddwyn mewn Ymchwil.

## Aelodaeth Allanol

32. Mae Ymchwil, Busnes ac Arloesi yn parhau i gymryd rhan weithgar yn y Gymdeithas Rheolwyr a Gweinyddwyr Ymchwil (ARMA).

33. Mae'r Brifysgol yn aelod o Swyddfa Uniondeb Ymchwil y DU (UKRIO). O ganlyniad, mae'r Brifysgol yn cael cefnogaeth ar faterion uniondeb a chamymddygiad ym maes ymchwil, sy'n gyson â'r egwyddorion a'r disgwyliadau a geir yn y Concordat i Gefnogi Uniondeb Gwaith Ymchwil.

## Gweithdrefn ar gyfer Ymchwilio i Gamymddwyn wrth wneud Ymchwil

34. Gall y Brifysgol roi sicrwydd bod y prosesau sydd ar waith gan y sefydliad ar gyfer ymdrin â honiadau o gamymddwyn yn dryloyw, yn amserol, yn gadarn ac yn deg, a'u bod yn parhau i fod yn briodol i anghenion y sefydliad.

i) Mae'r Brifysgol yn ystyried o ddifrif bob honiad o gamymddwyn wrth wneud ymchwil ac mae wedi datblygu gweithdrefn i gynorthwyo â chynnal archwiliad llawn o faterion a allai fod yn gymhleth mewn ymchwil a all godi mewn sefyllfaoedd lle y gallai camymddwyn fod wedi digwydd.

ii) Mae'r weithdrefn hon yn dilyn y canllawiau ar gyfer y Weithdrefn i Ymchwilio i Gamymddwyn wrth wneud Ymchwil a gyhoeddwyd gan Swyddfa Uniondeb Ymchwil y DU (UKRIO) ym mis Awst 2008 ac yn unol â chanllawiau'r Concordat. Ei hamcanion yw sicrhau bod modd rhoi sylw priodol i faterion camymddwyn wrth wneud ymchwil ac ymchwilio'n effeithiol i'r materion hynny, a galluogi panel annibynnol i lunio adroddiad y gall y Brifysgol ei ddefnyddio'n sail i gychwyn cymryd camau priodol.

iii) Sail y broses o ddefnyddio'r Weithdrefn hon fydd egwyddorion Tegwch, Cyfrinachedd, Uniondeb, Atal Anfantais, a Chydbwysedd.

35. Mae tri cham i'r Weithdrefn ar gyfer Ymchwilio i Gamymddwyn wrth wneud Ymchwil. Rhaid i unrhyw gŵynion am gamymddwyn wrth wneud ymchwil gael eu gwneud yn ysgrifenedig.

   - Cynhelir cam rhagarweiniol i gydnabod yn ffurfiol yr honiad o gamymddwyn ac i adolygu natur yr honiadau. Os na ellir diystyru'n llwyr yr honiadau o gamymddwyn ar y cam hwn yna bydd yr ail gam yn dechrau.

- o Yna cynhelir cam sgrinio a bydd Panel Sgrinio yn cael ei gynnull (a fydd yn cynnwys Cyfarwyddwr y Gyfadran berthnasol a dau aelod uwch o'r staff academaidd, a dylai o leiaf un o'r ddau hynny fod o'r un Gyfadran â'r Atebydd) i benderfynu a oes angen ymchwilio'n ffurfiol i'r honiadau o gamymddwyn wrth wneud ymchwil. Cwblheir hyn cyn pen 30 diwrnod gwaith. Bydd y Cadeirydd yn llunio adroddiad ar ganfyddiadau'r Panel Sgrinio ynghylch a oes angen ymchwiliad ffurfiol ai peidio.

- o Cynhelir y Cam Ymchwilio Ffurfiol pan benodir Panel Ymchwilio Ffurfiol. Bydd y Panel Ymchwilio Ffurfiol yn cynnwys Dirprwy Is-Ganghellor (sef fel rheol yr un sy'n gyfrifol am Ymchwil) yn y Gadair a dau aelod uwch o staff academaidd o'r un Gyfadran â'r Atebydd. Dylid penodi'r panel o fewn 30 diwrnod gwaith o dderbyn adroddiad y Panel Sgrinio yn argymell cynnal ymchwiliad ffurfiol. Bydd y Panel Ymchwilio Ffurfiol yn archwilio'r dystiolaeth a gasglwyd ac yn cynnal unrhyw ymchwiliadau pellach sy'n angenrheidiol. Bydd hefyd yn cyfweld â'r atebydd a'r achwynydd. Nid oes terfyn amser wedi'i bennu ar gyfer y cam hwn a chaiff ei gwblhau cyn gynted â phosibl.

36. Mae'r Brifysgol yn ymdrechu i gynnal diwylliant sy'n hyrwyddo arfer da ac yn annog ymchwil onest a moesegol. Mae gan ymchwilwyr gyfrifoldeb i roi gwybod am unrhyw honiadau o gamymddwyn wrth wneud ymchwil ac mae'r Brifysgol wedi creu gweithdrefn sydd nid yn unig yn hwyluso ymchwilio i gamymddwyn wrth wneud ymchwil ond sydd hefyd yn galluogi i bobl deimlo'n gysurus wrth roi gwybod am unrhyw honiadau. Mae'r Brifysgol yn cynnig proses anffurfiol ar gyfer honiadau o'r fath er mwyn lleddfu'r pryder y gallai rhai ei deimlo wrth wneud cwyn. Mae gan achwynydd dri dewis arall ar wahân i gŵyn ffurfiol:

    A) cysylltu â'r unigolyn a cheisio dod o hyd i ffordd o ddatrys y mater ar y cyd;

    B) cysylltu â Dirprwy Is-Ganghellor y Gyfadran/Pennaeth yr Adran Wasanaeth a gofyn iddo ef/iddi hi fod yn gyfryngwr rhwng y naill ochr a'r llall wrth geisio datrys y mater;

    C) gofyn am gymorth i gyfryngu gan gyfryngwr sydd wedi'i hyfforddi gan ACAS yn y Brifysgol neu mewn chwaer-sefydliad.

37. Fodd bynnag, os nad yw'r ymchwilydd yn teimlo bod ganddynt ddewis heblaw am roi gwybod am honiad o gamymddwyn wrth wneud ymchwil yna mae'r Brifysgol wedi datblygu gweithdrefnau fel y trafodwyd yn flaenorol, sydd nid yn unig yn darparu mecanwaith i ymchwilio i'r honiad ond hefyd i gefnogi'r staff dan sylw.

## Datganiad ar ymchwiliadau ffurfiol i Gamymddwyn wrth wneud Ymchwil Academaidd

38. Ar sail y Weithdrefn ar gyfer Ymchwilio i Gamymddwyn wrth wneud Ymchwil, gall y Brifysgol adrodd, ar gyfer 2020-21, ynghylch **dau achos ar wahân lle cafwyd honiad**

o gamymddwyn wrth wneud ymchwil a'r achosion hynny wedi symud ymlaen i ymchwiliad ffurfiol. Ymchwiliodd y Brifysgol i'r honiadau isod a phrosesu'r achosion yn unol â'i gweithdrefnau ar gyfer ymchwilio i gamymddwyn wrth wneud ymchwil.

| 31. Blwyddyn | Honiad | Natur y Camymddwyn Honedig | Canlyniad |
|---|---|---|---|
| 2021 | 1 | Camliwio | Panel Ymchwilio wedi'i sefydlu. Ymchwiliad yn dal i fynd rhagddo. |
| 2021 | 1 | Casglu data heb gymeradwyaeth foesegol. Torri dyletswydd gofal. | Panel Ymchwilio wedi'i sefydlu. Ymchwiliad yn dal i fynd rhagddo. |

## Gwersi a ddysgwyd yn sgil yr ymchwiliadau ffurfiol a gafwyd i gamymddwyn wrth wneud ymchwil

39. Wedi i'r ymchwiliadau ffurfiol i'r holl achosion ar wahân sydd ar y gweill ar hyn o bryd ddod i ben, cynhelir adolygiad llawn o'r gwersi a ddysgwyd yn sgil yr achosion hynny, a rhoddir gwybod am ganlyniadau'r adolygiad hwnnw.

## Gwreiddio amgylchedd ymchwil sy'n annog pobl i fod yn agored ac yn barod i roi gwybod am achosion o gamymddwyn

40. Mae'r Brifysgol wedi ymrwymo i gynnal y safonau moesegol a phroffesiynol uchaf yn ein hymchwil, o'r cam dylunio i'r adeg pan fydd yr ymchwil yn cael ei lledaenu. Disgwylir y bydd ymchwilwyr bob amser yn gweithredu ag uniondeb, atebolrwydd a gonestrwydd, gan fod yn agored yn ogystal ag yn sensitif i bob diwylliant ac amgylchedd. Mae'r Brifysgol wedi datblygu sawl ffordd o annog ymchwilwyr i weithredu ag uniondeb a darparu ffyrdd agored a chyfrinachol o roi gwybod am achosion o gamymddwyn, gan gynnig hyfforddiant i ymchwilwyr sy'n fyfyrwyr hyd at lefel staff, hyfforddiant moeseg a chefnogaeth i arolygwyr ymchwil. Bydd unigolion yn cael gwybod y gallant gysylltu â'r Swyddog Moeseg ac Uniondeb Ymchwil yn gyfrinachol os oes ganddynt unrhyw bryderon a'u bod yn teimlo y gallai achosion o gamymddwyn fod wedi digwydd. Gallant drafod eu pryderon yn agored a gofyn am gyngor. Mae gan y Brifysgol bolisi ar ddatgelu er lles y cyhoedd (Chwythu'r Chwiban) sydd ar gael ar-lein i bob myfyriwr ac aelod o staff ei ddarllen.

## Paratoi'r datganiad hwn.

41. Cafodd y datganiad hwn ei baratoi a'i gydlynu gan Lisa Fisher, Swyddog Moeseg ac Uniondeb Ymchwil (Ymchwil, Busnes ac Arloesi), a Jennifer Deaville, Rheolwr Datblygu Ymchwil.

42. Cafodd y datganiad hwn ei gyflwyno gerbron a'i gymeradwyo gan Bwyllgor Moeseg Ymchwil y Brifysgol ar 20 Hydref 2022, Gweithrediaeth y Brifysgol ar (……) a'r Senedd ar (…..)

43. Dylid cyfeirio pob ymholiad am y datganiad hwn neu unrhyw rai o weithgareddau'r Brifysgol sy'n gysylltiedig â'r Concordat at un o'r enwau

cyswllt isod:

Yr Athro Colin McInnes – Dirprwy Is-Ganghellor ar gyfer Ymchwil, Cyfnewid Gwybodaeth ac Arloesi, Cadeirydd Pwyllgor Moeseg Ymchwil y Brifysgol
Lisa Fisher – Swyddog Moeseg ac Uniondeb Ymchwil, Yr Adran Ymchwil, Busnes ac Arloesi
Dr Jennifer Deaville – Rheolwr Datblygu Ymchwil, Yr Adran Ymchwil, Busnes ac Arloesi

44. Os oes gan unrhyw un sy'n darllen y ddogfen hon bryderon ynghylch ymddygiad ymchwilydd ym Mhrifysgol Aberystwyth, dylent droi, yn y lle cyntaf, at y polisi a'r weithdrefn briodol. Os ydych yn ansicr pa bolisi sy'n berthnasol neu os ydych yn cymryd rhan mewn prosiect ymchwil, cysylltwch â'r tîm Moeseg Ymchwil, a fydd yn gallu eich cynghori:

✉ moeseg@aber.ac.uk

Hydref 2022